

**Cyfarfod Partneriaeth
Tyfu Canolbarth Cymru**

Y Siambr, Aberaeron, Ceredigion

10.30 a.m. Dydd Gwener, 3 Tachwedd 2017

10:30am- 12.55p.m.

Mynychwyr

Ellen ap Gwynn (EaG)	Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion (Cadeirydd)
Rosemarie Harris (CRH)	Arweinydd, Cyngor Sir Powys (Is-gadeirydd)
Alun Williams (AIW)	Cynghorydd, Cyngor Sir Ceredigion
Ann Elias (AE)	Cyngor Sir Ceredigion
Ann Watkin (AnW)	Llywodraeth Cymru
Ceri Stephens (CS)	Grŵp Gwneuthuro Canolbarth Cymru
Claire Miles (CM)	Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol
Eifion Evans (EE)	Cyngor Sir Ceredigion
Elwyn Vaughan (EV)	Cyngor Sir Powys
Gareth Jones (GJ)	Cyngor Sir Powys
Gareth Lloyd (GL)	Cynghorydd, Cyngor Sir Ceredigion
Gerwyn Evans (GE)	Llywodraeth Cymru
Jane Lewis (JL)	Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol
John Jones (JJ)	Llywodraeth Cymru
Mared Jones (MJ)	Undeb Amaethwyr Cymru
Matthew Williams (MW)	Ffederasiwn Busnesau Bach
Mike Shaw (MS)	Cyngor Sir Ceredigion
Myfanwy Alexander (MA)	Cynghorydd, Cyngor Sir Powys
Paul Griffiths (PG)	Cyngor Sir Powys
Rhian Williams (RW)	Cyngor Sir Gwynedd
Rhodri Griffiths (RG)	Llywodraeth Cymru
Rhodri Llwyd Morgan (RLM)	Prifysgol Aberystwyth
Rob Halford (RHa)	Llywodraeth Cymru
Rob Holt (RH)	Llywodraeth Cymru
Rowland Rees-Evans (RRE)	Cadeirydd Twristiaeth Preifat
Russell Hughes-Pickering (RHP)	Cyngor Sir Ceredigion
Sandra Isaac (SI)	Coleg Ceredigion
Susan Bolter (SB)	Cyngor Sir Powys
Vivienne Lewis (VL)	Llywodraeth Cymru

Yn bresennol

- Felicity Llewellyn – Cyngor Sir Powys

<p>1.</p>	<p>Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd Brif Weithredwr newydd Cyngor Sir Ceredigion i'r cyfarfod, ynghyd â mynychwyr am y tro cyntaf.</p> <p>Ymddiheuriadau;</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cynghorydd Dafydd Meurig, Cyngor Sir Gwynedd ▪ Cynghorydd Ioan Thomas, Cyngor Sir Gwynedd ▪ Cynghorydd Liam Fitzpatrick, Cyngor Sir Powys ▪ Cynghorydd Martin Weale, Cyngor Sir Powys ▪ Doug Hughes, Doug Hughes Architects ▪ Hywel Davies, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ▪ Jeremy Patterson, Cyngor Sir Powys ▪ Paul Evans, Venture Automotive ▪ Peter Howells, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ▪ Peter Skitt, Bwrdd Iechyd Hywel Dda <p>Dymunodd y Cadeirydd adferiad cyflym i Jeremy wedi ei lawdriniaeth ddiweddar.</p>	
<p>2.</p>	<p>Derbyn cyflwyniadau:</p> <p>a) Gweithio rhanbarthol ar gyfleoedd am dwf twristiaeth – Gerwyn Evans, Croeso Cymru</p>	
	<p>Rhoddodd Gerwyn Evans, Pennaeth Datblygu Twristiaeth o fewn Croeso Cymru gyflwyniad ar Fuddsoddi o fewn y Sector Twristiaeth; bydd copi o'r cyflwyniad yn cael ei gylchredu i'r Bartneriaeth yn dilyn y cyfarfod.</p> <p>Wrth drafod prosiect arfaethedig Cwm Rheidiol fel testun, fe wnaeth y Cadeirydd ddatgan diddordeb oherwydd cysylltiad aelod o'r teulu gyda'r prosiect.</p> <p>Bydd strategaeth deng mlynedd 'Ffordd Cymru' yn cael ei lansio i'r cyfryngau yn Llundain ar 14 Tachwedd 2017, gyda digwyddiad yn y Senedd i ddilyn hyn ym mis Rhagfyr.</p> <p>Mae 'Blwyddyn y Chwedlau' wedi arwain at gynnydd mewn twristiaeth, gan gynnwys y niferoedd ymwelwyr mwyaf a gofnodwyd erioed gan CADW. Fe fydd 2018 yn 'Flwyddyn y Môr', gyda'r 'Flwyddyn Darganfod' i ddilyn hyn yn 2019.</p>	<p>MS</p>

Mae www.walesthebrand.com wedi cael ei lansio, ac mae'r cyfryngau brandio (gan gynnwys ffotograffau a llyfrgelloedd fideos) ar gael i'w defnyddio yn awr.

Gellir cysylltu â Thîm Rhanbarthol Croeso Cymru ar gyfer canolbarth Cymru trwy:

Helen Jones (helen.jones28@wales.gsi.gov.uk) a Gwawr Price (Gwawr.Price3@wales.gsi.gov.uk)

Cafwyd trafodaeth am y ffaith y gall cyflwyno ymgyrch newydd bob blwyddyn achosi ychydig o ddriswch i ymwelwyr, a chwestiynwyd a fyddai cynnal ymgyrchoedd a gynhelir am gyfnodau hirach yn ddewis i fynd i'r afael â hyn. Tra bo ffocws yr ymgyrch 'Blwyddyn' yn newid bob blwyddyn, nodwyd fod ymgyrchoedd blaenorol yn parhau. Yn ystod yr arolwg nesaf ar ymgyrchoedd efallai y byddai newid i ymgyrchoedd dwy flynedd yn cael ei ystyried.

Trafodwyd ymgyrch 'Blwyddyn y Môr'. Gan nad oes arfordir gan Bowys, cwestiynwyd sut y byddai ymgyrch o'r fath o fudd i siroedd heb arfordiroedd. Pwysleisiwyd fod yr ymgyrch hon yn cynnwys pob math o ddyfroedd, o foroedd i afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr.

Nododd y Cadeirydd fod cynlluniau i gefnogi'r arfordir yn derbyn cyfraniadau oddi wrth awdurdodau lleol perthnasol.

Cadarnhaodd RLM fod cais Prifysgol Aberystwyth i Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer £10.5 miliwn i ddatblygu'r hen goleg fel canolfan dreftadaeth a diwylliant ar gyfer y rhanbarth, ac i Gymru gyfan, wedi bod yn llwyddiannus. Mynegodd RLM ddiolch i Groeso Cymru am eu cefnogaeth.

Fe fydd pedwar rhanbarth economaidd, ac fe fydd Tyfu Canolbarth Cymru yn un ohonynt. Fe wnaeth y Cadeirydd gefnogi diddordeb parhaus Croeso Cymru yng nghanolbarth Cymru.

Gyda chyfeiriad at y cyflwyniad, a oedd yn amlygu'r grantiau a ddarperir i leoliadau o ansawdd uwch (h.y. y rheini sy'n mynd y tu hwnt i'r sgôr/graddfa 3*), trafodwyd mai uchelgais y sector oedd denu buddsoddiad a thwristiaeth o ansawdd uchel, ac oherwydd hynny, mae cronfeydd y sector cyhoeddus wedi'u blaenoriaethu ar gyfer y mentrau hynny. Cefnogodd yr Is-gadeirydd y pwynt hwn.

Roedd yr Is-gadeirydd yn arbennig o falch o nodi Menter *Mid Wales My Way*, ac wedi ymweld â thîm Croeso Cymru am drafodaeth bellach rhyngddi hi a'i

	<p>chydweithwyr o fewn Cyngor Sir Powys; mae'r cyfarfod i'w gynnal y mis nesaf.</p> <p>Gofynnwyd am eglurhad am y cysylltiadau sy'n bodoli rhwng timoedd Llywodraeth Cymru i sicrhau bod mentrau pontio yn cael eu cynyddu. Cadarnhawyd fod cylch gorchwyl Jason Thomas yn cynnwys CADW, Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd, ac y byddai'n croesawu'r cyfle i ymuno yn y bartneriaeth hon yn y dyfodol. CM i weithredu wrth anfon gwahoddiad sefydlog i Groeso Cymru a Jason Thomas.</p> <p>Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i GE am ei gyflwyniad.</p>	CM
3.	Cofnodion a chamau gweithredu o gyfarfod diwethaf y Bartneriaeth ar 28 Gorffennaf 2017	
	<p>Awdurdodwyd y Cadeirydd i gymeradwyo cofnodion yr 28 Gorffennaf 2017 ar ran y Bartneriaeth, gyda diwygiad i eitem 4a ar dudalen 3 (newid 'Llanfair' i 'Llanbedr').</p> <p>Bydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi a'u cyflwyno i'r Cabinet o fewn Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.</p> <p>Eitemau yn Codi: Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf (eitem 3): JJ a CM i drafod argaeledd posibl y Rhaglen Sgiliau Hyblyg ymhellach yng Nghanolbarth Cymru. Maent yn chwilio am gapasiti/gallu o fewn yr awdurdod lleol i symud ymlaen gyda hyn.</p>	CM
4.	Diweddariad ar y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (PDSRh)	
	<p>Nododd yr aelodau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd ag ef.</p> <p>Fe wnaeth JL wahodd cwestiynau o ran y rhaglen waith a'r cynllun gweithredu drafft. Nid yw amserlenni wedi'u dynodi o ran camau gweithredu'r PDSRh ar gyfer Canolbarth Cymru, ond byddai cyfarfod y Grŵp Clwstwr dros Ranbarth Canolbarth Cymru ar ddiwedd mis Tachwedd yn dynodi'r blaenoriaethau o fewn y cynllun, a fyddai'n nodi ac egluro'r camau gweithredu yn eu tro. Cadarnhaodd JL iddi fod mewn trafodaeth gydag un coleg o ran y sgiliau y manylir arnynt o fewn y cynllun a'i bod yn rhagweld ateb cyn cyfarfod y Grŵp Clwstwr o ran ble y byddai lleoedd newydd yn cael eu darparu ar gyfer y gofynion ychwanegol a nodwyd ar gyfer Canolbarth Cymru.</p>	

Mynegwyd pryderon am nifer y weithiau y cafodd Rhanbarth Dinas Abertawe ei hyrwyddo o fewn y ddogfen o'i gymharu â rhanbarth Tyfu Canolbarth Cymru. Cafwyd trafodaeth am y ffaith y gallai prosiectau cenedlaethol ar raddfa fawr annog pobl ifanc i adael ardal Canolbarth Cymru sydd heb brosiect gwledig tebyg ar yr un raddfa.

Amlygwyd pryderon ychwanegol o ran yr ymgysylltu cyfyngedig gyda cholegau, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau addysg bellach ac uwch eraill. Galwodd y Bartneriaeth am fewnbwn ychwanegol oddi wrth ddarparwyr addysgol eraill ar gyfer gwaith y PDSRh o fewn Rhanbarth Canolbarth Cymru.

Bydd rhaglen cyflogadwyedd newydd yn cael ei chyflwyno yn 2019, ochr yn ochr â rhaglen 'working health' yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Nid yw Rhanbarth Canolbarth Cymru wedi cymryd rhan eto wrth ddatblygu'r ddwy fenter hyn oherwydd diffyg prosiectau a ariennir gan Gymunedau'n Gyntaf. Gofynnwyd i'r PDSRh ddatgan yn glir sut y gall y Bartneriaeth gymryd rhan o fewn y prosiectau hyn gan ddefnyddio'r PDSRh fel cyfrwng ar gyfer adborth, yn enwedig mewn perthynas â materion rhanbarthol megis natur wledig y rhanbarth a diffyg trafniadaeth.

Gofynnodd MS am gynnydd ar ddatblygu ymgysylltu gyda PDSRh o fewn Rhanbarth Canolbarth Cymru. Mae Grŵp Clwstwr Canolbarth Cymru yn cynnwys pob sector; wedi pob cyfarfod grŵp clwstwr, rhoddir adborth sy'n benodol i'r sector yn ôl i Grŵp Canolbarth Cymru. Bydd Cadeirydd yn cael ei benodi yng nghyfarfod nesaf PDSRh a bydd **JL yn rhoi adborth i Dyfu Canolbarth Cymru.**

JL

Nododd PG iddo ef a MA fynychu lansiad Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau PDSRh. Gwnaed sylwadau mai'r prif fater oedd yr angen i Ranbarth Canolbarth Cymru 'wneud i bethau ddigwydd' dros eu hunain h.y. creu'r cyfleoedd a'r amgylchedd. Cafodd yr her enfawr ei chydabod, a chwestiynwyd sut i sicrhau fod y cynlluniau sydd gan TCC yn cael eu cadw wrth galon cynlluniau PDSRh. Nododd JL ei bod hi'n anochel y byddai pobl ifanc yn gadael y rhanbarth i gymryd rhan mewn prosiectau ar raddfa fawr megis Bargen Ddinesig Abertawe.

Cynhaliwyd trafodaeth o ran sut i ôl-lenwi swyddi'r diwydiant twf yng Nghymru o ganlyniad i'r 'tyniad' o ardaloedd gwledig i ardaloedd datblygu y tu allan i'r rhanbarth, Cymru a'r DU ac ati. Pwysleisiwyd yr angen am weithio mewn partneriaeth i gefnogi pob rhanbarth a diwydiant, gydag ystyriaeth i

	<p>boblogaeth sy'n heneiddio o fewn y rhanbarth (a'r angen i gefnogi mentrau ail-hyfforddi ac ati).</p> <p>Gofynnwyd am eglurhad am sut y gallai TCC ddylanwadu ar y cynllun i sicrhau gwasanaethu Rhanbarth Canolbarth Cymru yn y ffordd orau. Nododd PG fod y rhanbarth yn profi anhawster wrth recriwtio i rolau, hyd yn oed rolau cystadleuol gyda chyflogau da, ac felly fe fyddai'n bwysig i feithrin sgiliau a swyddi ein hunain. Fe wnaeth EE gefnogi sylwadau PG.</p> <p>Pwysleisiodd y Bartneriaeth y dylai'r PDSRh gyflawni'r diben hwn yn gyffredinol, ond nid oedd hyn yn digwydd yn y bôn.</p> <p>Pwysleisiodd y Bartneriaeth hefyd yr ystod o ddarparwyr hyfforddiant a sefydliadau addysgol sydd ar gael i'r rhanbarth, ac ail-bwysleisio pryderon am ddiffyg ymgysylltu gyda phob rhanddeiliad. Nododd y Cadeirydd fod y farn hon wedi'i phwysleisio'n rheolaidd, ac y byddai'n trafod hyn ymhellach gyda'r Ysgrifennydd Cabinet a'i swyddogion.</p> <p>Mae'r cynllun drafft wedi'i gyflwyno i'r Ysgrifennydd Cabinet, a chadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n cofnodi'n ffurfiol fod Partneriaeth TCC wedi trafod y materion a'r pryderon am y cynllun.</p> <p>Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i JL am ei chyflwyniad.</p>	<p>EaG</p> <p>EaG</p>
<p>5.</p>	<p>Datblygu Rhanbarthol – Rob Halford, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)</p>	
	<p>Rhoddwyd diweddariad ar lafar gan Rob Halford o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).</p> <p>Mae 17 mis yn weddill tan y bydd Erthygl 50 yn dod i rym.</p> <p>Mae 67% o gyfanswm y nawdd Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd oedd ar gael ar gyfer cyfnod y rhaglen bresennol wedi cael ei ddyrannu (gan gynnwys 161 o brosiectau sydd wedi'u cymeradwyo a 66 pellach o fewn y cam cynllunio busnes).</p> <p>Mae'r gyfradd gyfnewid anwadal yn ychwanegu her, gan fod newid o 1 sent yn cyfateb i gynydd neu ostyngiad o £17 miliwn yn y gyllideb.</p>	

	<p>Ar hyn o bryd, mae hi'n aneglur sut y bydd nawdd arall yn hytrach na hyn yn cael ei sicrhau yn dilyn Brexit, ac efallai y bydd cronfeydd presennol o bosibl yn cael eu defnyddio i adeiladu capasiti i baratoi ar gyfer Brexit.</p> <p>Bydd dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygu rhanbarthol ar gael yn y dyfodol agos, a bydd RH yn sicrhau fod Bwrdd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn ymwybodol o'i gyhoeddiad a'r digwyddiad ymgynghori. Ochr yn ochr â'r Bartneriaeth (a wahoddwyd i ymgysylltu cyn y cyhoeddiad), cafodd sefydliadau unigol eu gwahodd hefyd i roi mewnbwn i'r ymgynghoriad.</p> <p>Fe wnaeth y Bartneriaeth ddynodi tlodi gwledig fel agwedd bwysig i'w thrafod o fewn yr ymgynghoriad. Pwysleisiodd yr Is-gadeirydd bod grŵp Gwrthdlodi ym Mhowys. Ystyriwyd y dylid ymgeisio am y nawdd hwnnw i wneud ardaloedd gwledig yn fwy deniadol h.y. gyda gwasanaethau sydd o fewn cyrraedd a dewisiadau addysgol. Fe fyddai'n fuddiol rhoi ystyriaeth bellach i'r diffiniad o 'dlodi gwledig' e.e. i gynnwys gyrfaedd economaidd (y rheini sy'n cefnogi busnesau teuluol, ffermydd ac ati.), a chefnogi entrepreneuriaid ifanc. Bydd y gofynion yn cael eu hamlinellu'n glir ac yn cael eu cyflwyno ar gyfer ystyriaeth bellach.</p> <p>Bydd RH a Sioned Evans yn cael eu gwahodd i ymuno â chyfarfod Partneriaeth mis Ionawr i drafod yr ymgynghoriad.</p> <p>Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i RH am ei ddiweddariad.</p>	<p>CM / RH CM</p>
<p>6.</p>	<p>Diweddariad – strwythurau i ategu'r weledigaeth sydd ar y gweill i Dwf Canolbarth Cymru</p>	
	<p>Mae Cabinet anffurfiol ar y cyd rhwng Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion wedi cael ei gynnal i drafod strwythur cabinet ar y cyd posibl a sut y bydd yn cyd-fynd â'r Bartneriaeth hon wrth iddi symud ymlaen. Mae cydweithrediad yn cael ei gynnal hefyd o ran lechyd a Gofal Cymdeithasol, Ysgolion a Gwaredu â Gwastraff yng Nghanolbarth Cymru.</p> <p>Mae Cyngor Sir Gwynedd yn cael ei gynnwys o fewn y gweithio cydweithredol hwn, ac mae cynrychiolwyr wedi cael eu gwahodd i ymuno â Bwrdd y Bartneriaeth hon.</p> <p>Mae adroddiad Bargeinion Dinesig Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi cael ei gyhoeddi, ac mae'r angen am fargen dwf i Ganolbarth Cymru wedi'i chefnogi.</p>	

7.	<p>Diweddariad ar Ymgysylltu Rhanbarthol, gan gynnwys cyfarfodydd a fynychwyd</p>	
	<p>Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau a chytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:</p> <p>A – Llwybrau Masnacheiddio ar gyfer Technolegau Nano a Micro (Avenues of Commercialization for Nano and Micro Technologies) (ACNM), Prifysgol Abertawe</p> <p>Gofyn i Brifysgol Abertawe wrth ddatblygu'r cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) I arddangos yn llwyr sut y mae'r gweithrediad yn bwriadu targedu ac ymgysylltu gyda busnesau perthnasol o fewn yr ardal gymwys yn rhanbarth Canolbarth Cymru 2) I archwilio ymhellach y cysylltiadau a thebygrwydd posibl gyda gweithrediadau eraill o fewn Canolbarth Cymru a ariennir gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd gyda chysylltiadau â'r Sector Ffermio a Bwyd, fel y dynodwyd uchod. <p>Gofyn i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wrth ystyried y cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) I nodi sylwadau Partneriaeth TCC uchod a sicrhau eu bod wedi'u trafod yn ddigonol o fewn unrhyw gynllun busnes <p>B - ADE3, Canolfan Gwneuthuro mewn Swp (Centre for Batch Manufacturing), UWTSD</p> <p>Gofyn i UWTSD wrth ddatblygu cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) I arddangos yn llwyr sut y mae'r gweithrediad yn bwriadu targedu ac ymgysylltu gyda busnesau perthnasol yn rhanbarth Canolbarth Cymru 2) I archwilio ymhellach y cysylltiadau a'r tebygrwydd posibl gyda gweithrediadau Blaenoriaeth 1 y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd (ERDF), sydd wedi'u cymeradwyo ac yn cael eu datblygu, er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posibl <p>Gofyn i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrth ystyried y cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) I nodi sylwadau Partneriaeth TCC uchod a sicrhau eu bod wedi'u trafod yn ddigonol o fewn unrhyw gynllun busnes 2) Rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â gweithrediadau sy'n cael eu datblygu o ganlyniad i alwad 1.2 diwedd y ERDF gyda'r prif 	

fuddiolwr, er mwyn caniatáu mapio gweithgaredd yn llwyr i osgoi unrhyw ddyblygu posibl

C - Gweithrediad Cyflymu Dyfeisgarwch Data (Data Innovation Accelerator operation), Prifysgol Caerdydd,

Gofyn i Brifysgol Caerdydd wrth ddatblygu cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;

- 1) I arddangos yn llwyr sut mae'r gweithrediad hwn yn bwriadu cynnig gweithgareddau cyfartal i Gymru gyfan a gweithio gyda busnesau o fewn pob rhanbarth o Gymru
- 2) I arddangos yn llwyr a dangos tystiolaeth o ymgysylltu gyda gweithrediadau perthnasol eraill, wedi'u hariannu gan yr ERDF neu fel arall, ac i esbonio'n llwyr sut y bydd dyblygu gweithgareddau yn cael ei osgoi

Gofyn i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrth ystyried y cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;

- 1) I nodi sylwadau Partneriaeth TCC uchod a sicrhau eu bod wedi'u trafod yn ddigonol o fewn unrhyw gynllun busnes

D – Data Daeryddol ac Arsylwi'r Ddaear ar gyfer Monitro (Geographical Data & Earth Observation for Monitoring (GEOM)), Prifysgol Aberystwyth

Gofyn i Brifysgol Aberystwyth wrth ddatblygu cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;

- 1) I arddangos yn llwyr sut y mae'r gweithrediad yn bwriadu targedu ac ymgysylltu gyda busnesau perthnasol yn rhanbarth Canolbarth Cymru

Gofyn i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrth ystyried y cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;

- 1) I nodi cefnogaeth gyffredinol Partneriaeth TCC i'r gweithrediad arfaethedig
- 2) I nodi sylwadau Partneriaeth TCC uchod a sicrhau eu bod wedi'u trafod yn ddigonol o fewn unrhyw gynllun busnes

E – Allyriadau Carbon Diwydiannol Is (Reduced Industrial Carbon Emissions (RICE)), Prifysgol Abertawe

- 1) I arddangos yn llwyr a dangos tystiolaeth o ymgysylltu gyda'r gweithrediad BEACON+ dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth, er mwyn osgoi dyblygu
- 2) I esbonio'n llwyr a dangos tystiolaeth o ddangosyddion a thargedau allbwn arfaethedig yn ystod y broses cynllunio busnes

Gofyn i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrth ystyried y cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;

- 1) I nodi sylwadau Partneriaeth TCC uchod a sicrhau eu bod wedi'u trafod yn ddigonol o fewn unrhyw gynllun busnes

F – Canolfan Atebion Storio Ynni Smart, (Smart Energy Storage Solutions (SESS) Hub), Prifysgol De Cymru

Gofyn i Brifysgol De Cymru wrth ddatblygu cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;

- 1) I gynnig eglurdeb o ran sut y byddai'r gweithrediad arfaethedig yn gweithio gyda busnesau yn ardal Dwyrain Cymru o ranbarth Canolbarth Cymru os tybir eu bod yn berthnasol i'r gweithrediad
- 2) I arddangos yn llwyr a dangos tystiolaeth o ymgysylltu gyda'r gweithrediadau perthnasol eraill, yn enwedig gweithrediad FLEXIS, ac i esbonio'n llwyr sut y bydd dyblygu gweithgaredd yn cael ei osgoi

Gofyn i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrth ystyried y cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;

- 1) I nodi sylwadau Partneriaeth TCC uchod a sicrhau eu bod wedi'u trafod yn ddigonol o fewn unrhyw gynllun busnes

G – Cyflymydd Dyfeisgarwch a Thechnoleg Iechyd Cymru (Welsh Health Innovation and Technology Accelerator (WHITA)), Canolfan Gwyddorau Bywyd Cymru

Gofyn i Ganolfan Gwyddorau Iechyd Cymru wrth ddatblygu cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;

- 1) I gynnig gwybodaeth bellach ac eglurdeb am sut y bydd y gweithrediad arfaethedig yn effeithio ar economi rhanbarthol Canolbarth Cymru

Gofyn i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrth ystyried y cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;

- 1) I nodi sylwadau'r Bartneriaeth TCC o ran diffyg addasrwydd lleol a sicrhau eu bod yn cael eu trafod yn ddigonol o fewn unrhyw gynllun busnes

	<p>2) I nodi sylwadau Partneriaeth TCC y dylai'r gweithrediad wirioneddol geisio cyflwyno gweithgareddau ar sail Cymru Gyfan o ystyried cyfran y nawdd sydd ar gael dan yr alwad agored a fyddai'n ofynnol gan y gweithrediad arfaethedig</p> <p>Ymholiad Cefnogi Nodwyd nad oes gan y Bartneriaeth ehangach fynediad o bosibl at y manylion sy'n ymwneud â'r eitemau a gyflwynwyd i'w cefnogi, a gofynnwyd am gyflwyno disgrifiad pellach ar fanteision ac effeithiau pob eitem a gynigir yn y dyfodol. Fe wnaeth CM sylw ar y ffaith fod y manylion llawn ar bob eitem yn cael eu darparu i'r grŵp traws-weithiol.</p> <p>Cyfarfod gyda'r Uned Ariannu Ranbarthol Gofynnwyd am estyn gwahoddiad i'r Uned Ariannu Ranbarthol i fynychu cyfarfod Bwrdd Partneriaeth mis Ionawr er mwyn cyflwyno diweddariad. Bydd CM yn estyn gwahoddiad i gyfarfod Bwrdd Partneriaeth mis Ionawr.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd am estyn gwahoddiad hefyd i Lesley Griffiths, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, i gwrdd â chynrychiolwyr Partneriaeth TCC.</p>	<p>CM</p> <p>CM</p> <p>CM</p>
<p>8.</p>	<p>Cynnydd a chynllun gweithredu ar lansio strategaeth cludo nwyddau</p>	
	<p>Cafodd yr adroddiad ei nodi gan yr aelodau, a chefnogwyd ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a Seilwaith.</p> <p>Bydd dogfen ar y cyd (gan Bartneriaeth Mentrau Lleol y Gororau (Marches LEP) a Phartneriaeth TCC) yn cael ei lansio, gyda gwahoddiad i Ysgrifenyddion Cabinet i fynychu.</p> <p>Yn dilyn adborth a dderbyniwyd gan un aelod o'r Bwrdd, cafodd y Bartneriaeth ei hannog i ystyried a chynnwys llwybr Rheilffordd Arfordir Cambrian wrth feddwl am gludo nwyddau.</p> <p>Pwysleisiwyd nad oedd trydan wedi'i sefydlu ddigon o fewn y Strategaeth Cludo Nwyddau, ac y byddai angen ystyried hyn i adnabod posibiliadau a'r gofynion seilwaith o ran defnyddio trydan ar reilffyrdd yng Nghymru. Roedd dynodi gwaith strategaeth ar draws ffiniau a ariennir ar y cyd (DU a Llywodraeth Cymru) yn cynnwys yr angen o fewn Cymru i atgyfnerthu'r rhwydwaith trwy Geredigion, Powys a Sir Amwythig.</p>	

	<p>Bydd AE yn cynnwys y materion hyn o fewn trafodaethau yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru.</p>	<p>AE</p>
<p>9.</p>	<p>Diweddariad gan Grŵp Seilwaith a Chysylltedd Twf Canolbarth Cymru</p>	
	<p>Cafodd yr adroddiad ei nodi gan yr aelodau.</p> <p>Pwysleisiwyd na fyddai Trenau Arriva Cymru (ATW) yn ymgeisio am fasnachfaint Cymru a'r Gororau, ond bod tri ymgeisydd arall. Mynegwyd pryder am y nifer fawr o weithwyr ATW ym Machynlleth a fyddai'n cael eu heffeithio, a chadarnhawyd y byddai'r gweithwyr mewn sefyllfa TUPE.</p> <p>Mae'r rhaglen waith ar Orsaf Bow Street/Rhydypennau yn mynd yn ei flaen.</p> <p>Mae Aseiad Gorsafoedd Canolbarth Cymru yn cynnwys ystyriaeth o Garno fel gorsaf/arhosfan ychwanegol ar gyfer Canolbarth Cymru. Cytunwyd yn gyffredinol nad dyma fyddai'r opsiwn gorau oherwydd yr orsaf bresennol yng Nghaersws (sydd llai na 6 milltir i ffwrdd).</p> <p>Esboniwyd fod y 'galwadau' am orsafoedd ar draws Rhanbarth Canolbarth Cymru wedi'u dynodi a'u rhoi mewn trefn blaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth, yn hytrach nag ar sail Cymru gyfan. Nid oedd blaenoriaeth am orsafoedd yn unrhyw sicrwydd y byddai'r gorsafoedd yn cael eu datblygu – byddai angen achos busnes llawn i gefnogi pob cynnig.</p> <p>Roedd llwybr T1 Traws Cymru (Aberystwyth i Gaerdydd) wedi cael ei gynnwys o fewn dyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith.</p> <p>Mewn perthynas ag eitem 2.4 o'r adroddiad, fe wnaeth yr Is-gadeirydd gwestiynau'r cynnig i ail-agor 'Llinell A' a'r broses ar gyfer gwneud cynnig o'r fath. Cadarnhawyd fod y cais hwn yn cael ei ddilyn gan yr Aelod Cynulliad a grŵp ymgyrchu lleol. Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi galwadau am nawdd, ac mae hyn yn cynnwys astudiaeth dichonolrwydd ac arian i ddatblygu cynnig. Nodwyd fod y gwaith diweddar i flaenoriaethu gorsafoedd wedi'i ariannu'n fewnol a heb ei ariannu gyda Chyfalaf.</p> <p>Gofynnwyd cwestiwn ynghylch pryd y bydd nawdd ar gael ar gyfer 'cynllun manau cul ffordd yr A487', a sut y gellir cael mynediad at y nawdd. Esboniwyd fod rhestr yn cael ei chreu, yn dilyn ceisiadau cystadleuol i'r gronfa trafndiaeth llywodraeth leol yn flynyddol, trwy hidlo'r ceisiadau hynny nad oedd yn llwyddiannus ond a gafodd eu dynodi fel rhai sy'n mynd i'r afael â</p>	

	<p>phryderon manau cul ar draws y rhwydwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i drafod 'manau cul' o fewn y rhwydwaith lleol sy'n bwydo i mewn i'r rhwydwaith cenedlaethol. Mae sawl cronfa wahanol sy'n cefnogi'r gwaith hwn.</p> <p>O ran adroddiad Mott MacDonald, nid oedd diweddariad pellach ar gael o ran yr amserlenni i'w hystyried o ran ail-agor llinell Aberystwyth i Gaerfyrddin.</p>	
<p>10.</p>	<p>Diweddariad ar drefniadau TRIP</p>	
	<p>Nododd yr aelodau'r cyflwyniad a wnaed i Lywodraeth Cymru - Adfywio.</p> <p>Mae'r rhaglen wedi cael ei chymeradwyo a'i lansio yn gyhoeddus; mae prosiectau posibl am y tair blynedd nesaf yn cael eu hystyried fel rhan o'r Cynllun Adfywio Rhanbarthol (ar gyfer y gronfa £7 miliwn mynegol dros dair blynedd), gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal wythnos nesaf rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion.</p> <p>Croesawodd VL enwebiadau am gynrychiolwyr i gyflwyno mewnbwn i drafodaethau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Cwestiynwyd sut y bydd y penderfyniad yn cael ei wneud o ran pa flaenoriaethau sydd bwysicaf o ran blaenoriaethau rhanbarthol a blaenoriaethau awdurdodau lleol. Cynigiwyd cadarnhad y bydd pwyllgor ar y cyd yn cael ei greu fel corff gwneud penderfyniadau i hyrwyddo blaenoriaethau'r rhanbarth, ac y byddai Prif Weithredwyr Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion yn gwneud penderfyniadau perthnasol yn y pwyllgor hwn. Nododd VI fod strategaeth eisoes gan Bartneriaeth TCC, a fyddai'n ffurfio sail y trafodaethau, ac a fyddai yn helpu i ddynodi'r 'enillion cyflym' ac eitemau o bwysigrwydd strategol.</p> <p>Dywedodd EV y gall fod yn fuddiol i newid holl agwedd y Bartneriaeth TCC i adolygu'r weledigaeth a symud ymlaen gyda'r rhaglen waith. Nodwyd fod rhaid i'r Bartneriaeth ddynodi nawdd yn gyntaf cyn symud ymlaen yn ymarferol h.y. sicrhau nawdd, cytuno ar raglen waith, ac yna gweithredu ar y rhaglen.</p> <p>Nododd AW fod Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru yn cael ei greu, a bod 'Ffyniant i Bawb' ar gael eisoes. Mae dogfen strategol lefel uchel ar waith ar gyfer y Bartneriaeth hon; y cam nesaf yw cytuno ar flaenoriaethau rhanbarthol a chamau gweithredu pendant i gyflwyno yn erbyn</p>	

	y weledigaeth. Bydd y gwaith hwn hefyd yn helpu i gyflwyno gwybodaeth ar gyfer gwaith y PDSRh (gyda chyfeiriad at drafodaeth gynharach).	
11.	I ystyried sylwadau gan: a) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri b) Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	
	Cynrychiolwyr Ychwanegol Cynigiwyd a chytunwyd i estyn gwahoddiad i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gael un cynrychiolydd yr un ar Fwrdd Partneriaeth TCC.	CM
12.	Unrhyw fater arall	
	<u>Dyddiadau nesaf</u> 12 Ionawr 2018 am 10.30am yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys 13 Ebrill 2018 am 10.30am yn Aberaeron, Ceredigion 13 Gorffennaf 2018 am 10.30am yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys 05 Hydref 2018 am 10.30am yn Aberaeron, Ceredigion	

Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Cadeirydd